HELPWCH NI | HELP US
I'CH HELPU CHI | HELP YOU

GIG CYMRU NHS WALES

EICH HELPU I GAEL Y GOFAL CYWIR, YN Y LLE CYWIR, Y TRO CYNTAF

OEDDECH CHI'N GWYBOD:

Bod **fferyllfeydd** yn cynnig cyngor **cyfrinachol am ddim** a thriniaeth os oes angen, ar gyfer 28 o fân anhywlderau gan gynnwys brech yr ieir, heintiau'r llwybr wrinol, llwnc tost/dolur gwddf a gwahanol gyflyrau croen?

Gofynnwch i'ch fferyllydd lleol am y **Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin**

Mae **optometrydd** yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol cymwysedig sy'n rhoi diagnosis o broblemau iechyd llygaid ac yn eu trin.

Gall eich optometrydd lleol drin amryw o broblemau iechyd llygaid, gan gynnwys llygaid dolurus neu gymylog, brychau, fflachiadau a llawer o broblemau eraill â'r llygaid. **Mae triniaeth iechyd y llygaid ar gael am ddim.**

Os nad oes gennych **ddeintydd** GIG Cymru arferol, gallwch gofrestru i gael un drwy'r **Porth Mynediad Deintyddol.** A gallwch ofyn am driniaeth frys drwy **linell gymorth ddeintyddol** eich bwrdd iechyd lleol.

I GAEL RHAGOR O WYBODAETH, EWCH I :

llyw.cymru/HelpuNiHelpuChi

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54101